



Newyddlen – Ebrill 2020

Croeso i newyddlen ddiweddaraf Morlais sy'n dod a'r diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais gyda'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Os yr hoffech wybod mwy am Morlais cysylltwch gyda ni info@morlaisenergy.com.

Proses caniatáu

Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig cafodd yr ymchwiliad cyhoeddus fel rhan o broses caniatáu Morlais ei gynnal yn gyfan gwbl ar-lein fel rhan - y tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd . Daeth yr ymchwiliad i ben ddiwedd Mawrth gyda datganiadau cloi gan yr holl bartïon. Mae disgwyl i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu penderfyniad yn ystod yr haf. Mae'r broses o sicrhau trwydded forol yn parhau hefyd - Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am yr elfen honno o'r broses. Yn y cyfamser rydym yn parhau i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau am y cynllun a'r buddion.

Am fwy o wybodaeth am y broses cliciwch [yma](#).

I weld llinell amser Morlais cliciwch [yma](#).

Hwb Hydrogen Caergybi

Yn y newyddlen ddiwethaf roedden ni'n adrodd bod y cynllun arloesol hwn wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru. Ers hynny mae £4 miliwn yn ychwanegol wedi ei glustnodi gan Lywodraeth San Steffan yn y gyllideb ddiweddar yn ogystal â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fydd yn caniatáu i'r prosiect symud ymlaen.

Y gobaith gyda'r Hwb yw bydd yn cynhyrchu hydrogen yn defnyddio ynni adnewyddadwy o gynlluniau fel Morlais a'i debyg. Ac fel Morlais mae'r Hwb yn gynllun Menter Môn sy'n golygu y bydd yn cael ei redeg yn lleol gyda'r budd yn aros yn lleol hefyd.

COP 26

Bydd y rhan fwyaf o ddarllenwyr yn ymwybodol bod y DU yn cynnal uwchgynhadledd COP26 fis Tachwedd. Dyma gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd. Bydd y digwyddiad yn dod a phobl a sefydliadau at ei gilydd i gyflymu'r broses o gyflawni amcanion Cytundeb Paris a Chonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd. Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu ac i godi ymwybyddiaeth ar sut all Morlais leihau carbon trwy gynhyrchu trydan glân. Byddwn yn ymgysylltu gyda'r gymuned yn y cyfnod yn arwain at fis Tachwedd.

Cadwch lygad allan am fwy o wybodaeth a newyddion ar ein cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf ar sut i gymryd rhan yn y ras i daclo newid hinsawdd.

[Together for Our Planet - Together For Our Planet \(ukcop26.org\)](https://ukcop26.org)

Sgiliau a chadwyn cyflenwi

Rydym wedi bod yn cysylltu gyda rhanddeiliaid a darparwyr hyfforddiant i gymryd rhan yn ein Gweithgor Sgiliau a Hyfforddiant a'r Gweithgor Cadwyn Gyflenwi.

Bydd y grwpiau'n cyfarfod bob deufis i gael diweddariadau am y prosiect a'r cyfleoedd ddaw yn ei sgil ar gyfer y gadwyn gyflenwi a datblygu sgiliau. Bydd y cyfarfodydd yn gyfle i rannu gwybodaeth ac arfer dda ymysg rhanddeiliaid.

Ymhlith y cynrychiolwyr sydd wedi eu cynnwys mae Prifysgol Bangor, Grŵp Llandrillo Menai, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn.

Byddwn yn dod â diweddariadau i chi o'r cyfarfodydd hyn ar ein cyfryngau cymdeithasol a'r newyddlen.

Ynni Morol Cymru (MEW)

Ynni Morol Cymru (MEW) yw'r corff ymbarél ar gyfer y sector. Bob blwyddyn maen nhw yn cyhoeddi adroddiad 'Cyflwr y sector'. Mae disgwyl i'r ddogfen gael ei chyhoeddi fis Mai eleni ac mae Morlais wedi cyfrannu at yr adroddiad - i ddarllen yn llawn ewch i wefan [MEW](https://www.mew.gov.uk).

Digwyddiad Gyrfa Cymru

Mae creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn rai o fuddion allweddol y mae Morlais yn ceisio sicrhau i Ynys Môn. Gyda hyn mewn golwg rydym bob amser yn awyddus i gwrrd â phobl ifanc a rhannu potensial Morlais gyda nhw. Roedden ni'n falch felly o fynychu digwyddiad rhithwir Gyrfa Cymru 'Dewiswch eich dyfodol' ym mis Mawrth gyda dau brosiect arall i Menter Môn sef a Hwb hydrogen Caergybi. Wrth i fyfyrwyr ddewis eu llwybr gyrfa mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt trwy brosiectau Menter Môn a sut y gallant ddatblygu sgiliau ar addas.

Croeso i'r fîm Hannah

Ymunodd Hannah Thomas â'r fîm yn Morlais yn ddiweddar yn dilyn ymadawiad Danial Ellis Evans. Daw Hannah o Moelfre ar Ynys Môn ac aeth i Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

Ar ôl graddio mewn Busnes a Rheolaeth o Brifysgol Metropolitan Caerdydd aeth i deithio De America am flwyddyn cyn dychwelyd i Fôn ac i weithio ar brosiect Morlais.

Dyma beth oedd gan Hannah i'w ddweud am ei rôl: "Fe welais effaith newid yn yr hinsawdd gyda fy llygaid fy hun pan oeddwn i'n teithio, felly pan ddes i'n ôl, roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau gwneud rhywbeth i helpu i fynd i'r afael â'r mater. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn fy mod i'n gweithio ar brosiect fel Morlais sy'n

golygu mod i'n gallu dysgu am sector hollol newydd sydd mor bwysig yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

“Mae gweithio i Menter Môn hefyd yn golygu medrai roi rhywbeth yn ôl i'r ynys a 'mod i yn gallu gweithio'n agos at fy nheulu a ffrindiau, yn yr ardal ble gesh i fy magu.”

Diweddariad Selkie

Cynhaliwyd sesiwn rhwydweithio cyntaf Selkie mewn cydweithrediad â'r Hwb Menter ym mis Ionawr. Daeth wyth busnes o rwydwaith Selkie ynghyd â saith aelod o'r Hwb Menter.

Ym mis Chwefror cynhaliwyd pedwaredd gweminar Selkie. Sgiliau ar gyfer y Sector Ynni Morol oedd y pwnc o dan sylw y tro hwn a daeth cynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau allweddol at ei gilydd i edrych yn fwy manwl anghenion y diwydiant. Roedden ni yn falch iawn o weld dros 95 yn mynychu'r digwyddiad.

Rhwng mis Mai a mis Medi bydd Selkie yn cynnal sesiynau trosglwyddo gwybodaeth 'Cwrdd â'r Arbenigwr'. Bydd pynciau'n unigryw ar gyfer pob sesiwn ac yn ymdrin â meysydd fel cyllid, tendro, materion cyfreithiol, yswiriant a gweithgynhyrchu ar gyfer y sector ynni morol.

**Am wybodaeth bellach am Morlais cysylltwch info@morlaisenergy.com
neu ewch i'n gwefan www.morlaisenergy.com.**

Pwy ydym ni? Mae Menter Môn yn fenter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar sicrhau budd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i gymunedau lleol.

Beth ydym yn ei wneud? Sicrhau caniatâd i roi'r isadeiledd angenrheidiol yn ei le er mwyn galluogi datblygu technoleg ynni llif llanw i gynhyrchu trydan

Ble rydym yn gwneud hyn? Mae ardal y prosiect oddi ar arfordir gorllewin Ynys Cybi mewn parth sydd wedi ei ddynodi gan Ystâd y Goron ar gyfer datblygu technoleg ynni morol.

Pam rydym yn gwneud hyn? Rydym am sicrhau bod y cynllun yn dod a budd lleol trwy gyfleoedd economaidd a thaclo newid hinsawdd